OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2025 Rhif 181 (Cy. 38)

CAFFAEL CYHOEDDUS, CYMRU

Rheoliadau Caffael (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025

2025 No. 181 (W. 38)

PUBLIC PROCUREMENT, WALES

The Procurement (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2025

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau o sylwedd i Ddeddf Caffael 2023 ("Deddf 2023") ac i Reoliadau Caffael (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024"), yn ogystal â diwygiadau eraill sy'n deillio o Ddeddf 2023 yn dod i rym.

Diben Deddf 2023 yw diwygio cyfundrefn caffael cyhoeddus y Deyrnas Unedig yn dilyn ei hymadawiad â'r Undeb Ewropeaidd (UE), gan greu system symlach a mwy tryloyw nad yw'n seiliedig ar Gyfarwyddebau'r UE wedi eu trawsosod. Mae Rheoliadau 2024 yn ychwanegu at Ddeddf 2023.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlenni 1 a 9 i Ddeddf 2023. Bydd y diwygiadau hyn yn gymwys i awdurdodau contractio sy'n awdurdodau Cymreig datganoledig neu sy'n cael eu trin felly. Mae rheoliad 3(2) a (3) yn diwygio Atodlen 1, sy'n cynnwys symiau trothwy. Mae'r trothwyon hynny yn pennu uwchlaw pa werth y mae contractau o wahanol fathau i gael eu rheoleiddio gan y gyfundrefn o sylwedd. Gosodir y trothwyon o dan Gytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gaffael gan Lywodraethau. Deddfwyd Deddf 2023 gyda'r gwerthoedd trothwy a oedd yn gymwys ar y pryd; diweddarwyd y rhain ym mis Ionawr 2024 ac mae rheoliad 3(2) yn sicrhau y bydd y ffigurau trothwy yn cael eu diweddaru'n briodol cyn i Ddeddf 2023 ddod i rym yn llawn. Mae rheoliad 3(4) yn diwygio Atodlen 9 i adlewyrchu ychwanegiadau at rwymedigaethau rhyngwladol y DU mewn cysylltiad â chaffael, a diwygiadau i'r rhwymedigaethau hynny.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations make substantive amendments to the Procurement Act 2023 ("the 2023 Act") and to the Procurement (Wales) Regulations 2024 ("the 2024 Regulations"), as well as other amendments arising from the coming into force of the 2023 Act.

The purpose of the 2023 Act is to reform the United Kingdom's public procurement regime following its exit from the European Union (EU), creating a simpler and more transparent system not based on transposed EU Directives. The 2024 Regulations supplement the 2023 Act.

Part 2 of these Regulations amends Schedules 1 and 9 to the 2023 Act. These amendments will apply to contracting authorities that are devolved Welsh authorities or are treated as such. Regulation 3(2) and (3) amends Schedule 1, which contains threshold amounts. Those thresholds determine the value above which contracts of different types fall to be regulated by the substantive regime. The thresholds are set under the World Trade Organisation's Agreement on Government Procurement. The 2023 Act was enacted with the threshold values applicable at the time; these were updated in January 2024 and regulation 3(2) ensures that the threshold figures will be appropriately updated ahead of the 2023 Act fully coming into force. Regulation 3(4) makes amendments to Schedule 9 to reflect additions and amendments to the UK's international obligations in respect of procurement.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau amrywiol i Reoliadau 2024. Mae'r diwygiadau hyn yn cael eu gwneud cyn i Reoliadau 2024 ddod i rym ac maent yn mynd i'r afael â nifer bach o faterion nas nodwyd yn y Rheoliadau hynny.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Penderfynwyd bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gynhaliwyd ar gyfer Rheoliadau 2024 yn gymwys i'r Rheoliadau hyn hefyd, a chan hynny, nid oes angen cynnal asesiad pellach.

Part 3 of these Regulations makes various amendments to the 2024 Regulations. These amendments are being made prior to the coming into force of the 2024 Regulations and address a small number of matters which were overlooked in those Regulations.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. It was determined that the Regulatory Impact Assessment which was carried out for the 2024 Regulations is also applicable to these Regulations and as such no further assessment is required.

2025 Rhif 181 (Cy. 38)

CAFFAEL CYHOEDDUS, CYMRU

Rheoliadau Caffael (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025

Gwnaed	*19 Chwefror 2025*
Yn dod i rym	*24 Chwefror 2025*

Mae Gweinidogion Cymru(**1**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 69(4), 89(3), 95(1), (2) a (3), 122(3) a 125 o Ddeddf Caffael 2023(**2**), a pharagraffau 2, 3(a) a 5(1) o Atodlen 1, paragraff 6(4) o Atodlen 2, a pharagraffau 1(3), 2(3) a 3(5) o Atodlen 4 iddi.

Yn unol ag adrannau 122(10)(e), (i), (l), (q), (r), (s) a (t) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(**3**).

RHAN 1

Cyflwyniad

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Caffael (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 24 Chwefror 2025.

(**1**) Gweinidogion Cymru yw'r "awdurdod priodol" fel y diffinnir "appropriate authority" yn adran 123(1) o Ddeddf Caffael 2023, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a nodir yn adran 111(1) o'r Ddeddf honno.

(**2**) 2023 p. 54.

(**3**) Gweler hefyd adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) am ddarpariaeth ynghylch y weithdrefn sy'n gymwys i'r offeryn hwn.

2025 No. 181 (W. 38)

PUBLIC PROCUREMENT, WALES

The Procurement (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2025

Made	*19 February 2025*
Coming into force	*24 February 2025*

The Welsh Ministers(**1**) make the following Regulations in exercise of the powers conferred on them by sections 69(4), 89(3), 95(1), (2) and (3), 122(3) and 125 of, and paragraphs 2, 3(a) and 5(1) of Schedule 1, paragraph 6(4) of Schedule 2, and paragraphs 1(3), 2(3) and 3(5) of Schedule 4, to the Procurement Act 2023(**2**).

In accordance with sections 122(10)(e), (i), (l), (q), (r), (s) and (t) of that Act, a draft of these Regulations has been laid before, and approved by a resolution of, Senedd Cymru(**3**).

PART 1

Introductory

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Procurement (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2025.

(2) These Regulations come into force on 24 February 2025.

(**1**) The Welsh Ministers are the "appropriate authority" as defined in section 123(1) of the Procurement Act 2023, subject to the restrictions set out in section 111(1) of that Act.

(**2**) 2023 c. 54.

(**3**) See also section 40 of the Legislation (Wales) Act 2019 (anaw 4) for provision about the procedure that applies to this instrument.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Deddf 2023" ("*the 2023 Act*") yw Deddf Caffael 2023(**1**);

ystyr "Rheoliadau 2024" ("*the 2024 Regulations*") yw Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024(**2**).

Interpretation

2. In these Regulations—

"the 2023 Act" ("*Deddf 2023*") means the Procurement Act 2023(**1**);

"the 2024 Regulations" ("*Rheoliadau 2024*") means the Procurement (Wales) Regulations 2024(**2**).

RHAN 2

Diwygio Deddf 2023

Diwygio Atodlenni 1 a 9 i Ddeddf 2023

3.—(1) Mae Deddf 2023 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 1 (symiau trothwy), ym mharagraff 1(1)—

(a) yn y geiriau o flaen y tabl—

(i) ar ôl "the table below is" mewnosoder "the threshold set out in the corresponding row of the third column.";

(ii) hepgorer paragraffau (a) a (b) a'r "and" rhwng y paragraffau hynny;

(b) yn y tabl—

(i) hepgorer y drydedd golofn (fel bod y bedwaredd golofn yn dod yn drydedd golofn);

(ii) ym mhennawd y drydedd golofn newydd, hepgorer ": any other contract".

(3) Hepgorer paragraff 1(1A) o Atodlen 1.

(4) Yn Atodlen 9 (cyflenwyr gwladwriaethau cytuniad)—

(a) hepgorer paragraff A1 a'r penawdau italig o'i flaen ac ar ei ôl;

(b) ym mharagraff 9—

(i) hepgorer paragraff (a) a'r "In—" o'i flaen;

(ii) ar ddechrau paragraff (b), hepgorer "(b) any other case, the";

(c) ym mharagraff 10—

(i) hepgorer paragraff (a) a'r "In—" o'i flaen;

(ii) ar ddechrau paragraff (b), hepgorer "(b) any other case, the";

PART 2

Amendments to the 2023 Act

Amendments to Schedules 1 and 9 to the 2023 Act

3.—(1) The 2023 Act is amended as follows.

(2) In Schedule 1 (threshold amounts), in paragraph 1(1)—

(a) in the words before the table—

(i) after "the table below is" insert "the threshold set out in the corresponding row of the third column.";

(ii) omit paragraphs (a) and (b) and the "and" between those paragraphs;

(b) in the table—

(i) omit the third column (so that the fourth column becomes the third column);

(ii) in the heading of the new third column, omit ": any other contract".

(3) Omit paragraph 1(1A) of Schedule 1.

(4) In Schedule 9 (treaty state suppliers)—

(a) omit paragraph A1 and the italic headings before and after it;

(b) in paragraph 9—

(i) omit paragraph (a) and the "In—" before it;

(ii) at the beginning of paragraph (b), omit "(b) any other case, the";

(c) in paragraph 10—

(i) omit paragraph (a) and the "In—" before it;

(ii) at the beginning of paragraph (b), omit "(b) any other case, the";

(**1**) 2023 p. 54.
(**2**) O.S. 2024/782 (Cy. 121).

(**1**) 2023 c. 54.
(**2**) S.I. 2024/782 (W. 121).

(d) ym mharagraff 11—

(i) hepgorer paragraff (a) a'r "In—" o'i flaen;

(ii) ar ddechrau paragraff (b), hepgorer "(b) any other case, the";

(e) ym mharagraff 13—

(i) hepgorer paragraff (a) a'r "In—" o'i flaen;

(ii) ar ddechrau paragraff (b), hepgorer "(b) any other case, the";

(f) ym mharagraff 17—

(i) hepgorer paragraff (a) a'r "In—" o'i flaen;

(ii) ar ddechrau paragraff (b), hepgorer "(b) any other case, the";

(g) ym mharagraff 20—

(i) hepgorer paragraff (a) a'r "In—" o'i flaen;

(ii) ar ddechrau paragraff (b), hepgorer "(b) any other case, the".

(d) in paragraph 11—

(i) omit paragraph (a) and the "In—" before it;

(ii) at the beginning of paragraph (b), omit "(b) any other case, the";

(e) in paragraph 13—

(i) omit paragraph (a) and the "In—" before it;

(ii) at the beginning of paragraph (b), omit "(b) any other case, the";

(f) in paragraph 17—

(i) omit paragraph (a) and the "In—" before it;

(ii) at the beginning of paragraph (b), omit "(b) any other case, the";

(g) in paragraph 20—

(i) omit paragraph (a) and the "In—" before it;

(ii) at the beginning of paragraph (b), omit "(b) any other case, the".

RHAN 3

Diwygio Rheoliadau 2024

Diwygio Rhan 1 o Reoliadau 2024

4.—(1) Mae Rhan 1 o Reoliadau 2024 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3 (dehongli), yn y lle priodol mewnosoder—

"mae i "contract cyfleustodau" yr ystyr a roddir i "utilities contract" gan adran 6 o Ddeddf 2023;".

Diwygio Rhan 2 o Reoliadau 2024

5.—(1) Mae Rhan 2 o Reoliadau 2024 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 4 (dehongli Rhan 2)—

(a) yn y testun Saesneg, yn lle "("*Deddf 2006*")" rhodder "("*DC 2006*")",

(b) hepgorer y diffiniad o "contract cyfleustodau",

PART 3

Amendments to the 2024 Regulations

Amendment to Part 1 of the 2024 Regulations

4.—(1) Part 1 of the 2024 Regulations is amended as follows.

(2) In regulation 3 (interpretation), at the appropriate place insert—

""utilities contract" ("*contract cyfleustodau*") has the meaning given by section 6 of the 2023 Act;".

Amendments to Part 2 of the 2024 Regulations

5.—(1) Part 2 of the 2024 Regulations is amended as follows.

(2) In regulation 4 (interpretation of Part 2)—

(a) in the English text, for "("*Deddf 2006*")" substitute "("*DC 2006*")",

(b) omit the definition of "utilities contract",

(c) yn y testun Saesneg, yn y diffiniad o "utility", hepgorer—

""Welsh digital platform" ("*platfform digidol Cymreig*") means the online system provided by the Welsh Government for use by contracting authorities to whom regulation 2 applies;", a

(d) yn y lle priodol yn y testun Saesneg, mewnosoder—

""Welsh digital platform" ("*platfform digidol Cymreig*") means the online system provided by the Welsh Government for use by contracting authorities to whom regulation 2 applies;".

(3) Yn rheoliad 12 (gwybodaeth y cyflenwr o ran ei bersonau cysylltiedig)—

(a) ar ddiwedd paragraff (6)(f), hepgorer "ac", a

(b) ym mharagraff (6)(g) hepgorer yr atalnod llawn, ac yna ar ôl paragraff (6)(g) mewnosoder—

", ac

(h) pan fo'r person cysylltiedig yn gwmni sydd wedi ei gofrestru o dan DC 2006, rhif cofrestru'r person a roddwyd o dan y Ddeddf honno."

(4) Yn rheoliad 13 (gwybodaeth y cyflenwr o ran seiliau dros wahardd)—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "(13)" rhodder "(13A)",

(b) ar ddiwedd paragraff (8)(a)(i), mewnosoder "neu",

(c) ar ddiwedd paragraff (13)(d)(ii), mewnosoder "ac",

(d) hepgorer paragraff (13)(e) a'r "ac" ar ei ôl, ac

(e) ar ôl paragraff (13), mewnosoder—

"(13A) Os yw'r cyflenwr neu un neu ragor o bersonau cysylltiedig wedi bod yn destun digwyddiad a grybwyllir ym mharagraffau (2) i (12), unrhyw dystiolaeth bod y cyflenwr neu'r person cysylltiedig—

(a) wedi cymryd y digwyddiad o ddifrif, er enghraifft drwy dalu unrhyw ddirwy neu iawndal,

(b) wedi cymryd camau i atal y digwyddiad rhag digwydd eto, er enghraifft drwy newid staff neu reolwyr, neu roi gweithdrefnau neu hyfforddiant ar waith, ac

(c) wedi ymrwymo i gymryd camau ataliol pellach, pan fo hynny'n briodol."

(c) in the English text in the definition of "utility", omit—

""Welsh digital platform" ("*platfform digidol Cymreig*") means the online system provided by the Welsh Government for use by contracting authorities to whom regulation 2 applies;", and

(d) in the appropriate place in the English text insert—

""Welsh digital platform" ("*platfform digidol Cymreig*") means the online system provided by the Welsh Government for use by contracting authorities to whom regulation 2 applies;".

(3) In regulation 12 (supplier's connected person information)—

(a) at the end of paragraph (6)(f), omit "and", and

(b) in paragraph (6)(g) omit the full stop, and then after paragraph (6)(g) insert—

", and

(h) where the connected person is a company registered under the CA 2006, the person's registration number given under that Act."

(4) In regulation 13 (supplier's exclusion grounds information)—

(a) in paragraph (1), for "(13)" substitute "(13A)",

(b) at the end of paragraph (8)(a)(i), insert "or",

(c) at the end of paragraph (13)(d)(ii), insert "and",

(d) omit paragraph (13)(e) and the "and" after it, and

(e) after paragraph (13), insert—

"(13A) If the supplier or one or more connected persons has been the subject of an event mentioned in paragraphs (2) to (12), any evidence that the supplier or connected person—

(a) took the event seriously, for example by paying any fine or compensation,

(b) took steps to prevent the event occurring again, for example by changing staff or management, or putting procedures or training in place, and

(c) committed to taking further preventative steps, where appropriate."

(5) Yn rheoliad 19(2) (hysbysiadau tendro: gweithdrefn agored), hepgorer is-baragraff (v).

(6) Yn rheoliad 20(2) (hysbysiadau tendro: gweithdrefn hyblyg gystadleuol)—

(a) hepgorer yr "ac" ar ôl is-baragraff (g), a

(b) yn is-baragraff (h) hepgorer yr atalnod llawn, ac yna ar ôl is-baragraff (h) mewnosoder—

", ac

(i) a yw dogfen dendro gysylltiedig yn cael ei darparu, neu y gall gael ei darparu, yn unol â'r hysbysiad tendro ar ôl y dyddiad y bydd yr hysbysiad hwnnw yn cael ei gyhoeddi ac, os felly, dolen i'r dudalen we lle y bydd yn cael ei darparu, neu esboniad ynghylch sut y bydd y ddogfen yn cael ei darparu."

(7) Yn rheoliad 27 (hysbysiadau tryloywder)—

(a) ar ôl paragraff (2)(d), mewnosoder—

"(da) yn achos caffaeliad pan fo'r cyfiawnhad dros ddyfarnu yn uniongyrchol ym mharagraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf 2023 yn gymwys, codau adnabod unigryw y weithdrefn dendro gystadleuol gynharach (sef cod adnabod y caffaeliad) a'r contract cynharach y cyfeirir atynt ym mharagraff 8(a) o Atodlen 5,";

(b) ar ôl paragraff (2)(k)(i), hepgorer "a";

(c) ar ôl paragraff (2)(k)(ii), mewnosoder—

"a

(iii) y cyfiawnhad dros ddyfarnu yn uniongyrchol yn Atodlen 5 i Ddeddf 2023 sy'n gymwys, ac esboniad ynghylch pam y mae'r awdurdod contractio yn ystyried ei fod yn gymwys,";

(d) ar ôl paragraff (2)(p), mewnosoder—

"(pa) disgrifiad o unrhyw opsiwn a fydd yn cael ei gynnwys yn y contract—

(i) i gyflenwi nwyddau, gwasanaethau neu weithiau ychwanegol, neu

(ii) i estyn neu adnewyddu cyfnod y contract,".

(5) In regulation 19(2) (tender notices: open procedure), omit sub-paragraph (v).

(6) In regulation 20(2) (tender notices: competitive flexible procedure)—

(a) omit the "and" after sub-paragraph (g), and

(b) in sub-paragraph (h) omit the full stop, and then after sub-paragraph (h) insert—

", and

(i) whether an associated tender document is being, or may be, provided in accordance with the tender notice after the date when that notice is published and, if so, a link to the web page where it will be provided, or an explanation of how the document will be provided."

(7) In regulation 27 (transparency notices)—

(a) after paragraph (2)(d), insert—

"(da) in the case of a procurement where the direct award justification at paragraph 8 of Schedule 5 to the 2023 Act applies, the unique identifiers of the earlier competitive tendering procedure (that is the procurement identifier) and the earlier contract referred to in paragraph 8(a) of Schedule 5,";

(b) after paragraph (2)(k)(i), omit "and";

(c) after paragraph (2)(k)(ii), insert—

"and

(iii) the direct award justification in Schedule 5 to the 2023 Act which applies and an explanation of why the contracting authority considers that it applies,";

(d) after paragraph (2)(p), insert—

"(pa) a description of any option which will be included in the contract—

(i) to supply additional goods, services or works, or

(ii) to extend or renew the term of the contract,".

(8) Yn rheoliad 28 (hysbysiadau dyfarnu contract ac eithrio'r rhai a gyhoeddir gan gyfleustodau preifat)—

(a) ym mharagraff (2)(e)(vi), hepgorer "(mae i "person â chyswllt" yr ystyr a roddir i "associated person" gan adran 26(4) o Ddeddf 2023)", a

(b) ar ôl paragraff (8), mewnosoder—

"(9) Yn y rheoliad hwn, mae i "person â chyswllt" yr ystyr a roddir i "associated person" gan adran 26(4) o Ddeddf 2023."

(9) Yn rheoliad 30 (hysbysiadau dyfarnu contract a gyhoeddir gan gyfleustodau preifat: dyfarniadau uniongyrchol)—

(a) ar ôl paragraff (2)(g)(i), hepgorer "a", a

(b) ar ôl paragraff (2)(g)(ii), mewnosoder—

"a

(iii) y cyfiawnhad dros ddyfarnu yn uniongyrchol yn Atodlen 5 i Ddeddf 2023 sy'n gymwys, ac esboniad ynghylch pam y mae'r awdurdod contractio yn ystyried ei fod yn gymwys,".

(10) Yn rheoliad 36 (hysbysiadau manylion contract: dyfarniad uniongyrchol), yn lle paragraff (2)(e), rhodder—

"(e) os yw is-baragraff (d) yn gymwys—

(i) y cyfiawnhad dros ddyfarnu yn uniongyrchol yn Atodlen 5 i Ddeddf 2023 sy'n gymwys, ac esboniad ynghylch pam y mae'r awdurdod contractio yn ystyried ei fod yn gymwys,

(ii) y drosedd, neu'r digwyddiad arall a grybwyllir yn Atodlen 6 i Ddeddf 2023, y mae'r cyflenwr yn gyflenwr gwaharddedig yn rhinwedd y drosedd honno neu'r digwyddiad hwnnw, a

(iii) pa sail yn adran 41(5) o Ddeddf 2023 sy'n gymwys, ac esboniad ynghylch pam y mae'r awdurdod contractio yn ystyried ei bod yn gymwys,".

(8) In regulation 28 (contract award notices except those published by private utilities)—

(a) in paragraph (2)(e)(vi), omit "("associated person" ("*person â chyswllt*") has the meaning given by section 26(4) of the 2023 Act)", and

(b) after paragraph (8), insert—

"(9) In this regulation "associated person" has the meaning given by section 26(4) of the 2023 Act."

(9) In regulation 30 (contract award notices published by private utilities: direct awards)—

(a) after paragraph (2)(g)(i), omit "and", and

(b) after paragraph (2)(g)(ii), insert—

"and

(iii) the direct award justification in Schedule 5 to the 2023 Act which applies and an explanation of why the contracting authority considers that it applies,".

(10) In regulation 36 (contract details notices: direct award), for paragraph (2)(e), substitute—

"(e) if sub-paragraph (d) applies—

(i) the direct award justification in Schedule 5 to the 2023 Act which applies and an explanation of why the contracting authority considers that it applies,

(ii) the offence or other event mentioned in Schedule 6 to the 2023 Act by virtue of which the supplier is an excluded supplier, and

(iii) which ground in section 41(5) of the 2023 Act applies and an explanation of why the contracting authority considers that it applies,".

(11) Yn rheoliad 39(2) (hysbysiadau cydymffurfedd taliadau)—

(a) ar ôl is-baragraff (c), mewnosoder—

"(ca) cyfran yr anfonebau a dalwyd, yn unol â'r teler yn adran 68(2) o Ddeddf 2023, yn ystod y cyfnod adrodd, wedi ei mynegi fel canran o gyfanswm nifer yr anfonebau a dalwyd, neu a ddylai fod wedi eu talu, yn unol â'r teler hwnnw o fewn y cyfnod adrodd,";

(b) ym mharagraff (5), yn lle "gyfeiriad", yn y lle cyntaf y mae'n digwydd, rhodder "cynnwys cyfeiriad".

(11) In regulation 39(2) (payments compliance notices)—

(a) after sub-paragraph (c), insert—

"(ca) the proportion of invoices paid in accordance with the term in section 68(2) of the 2023 Act during the reporting period, expressed as a percentage of the total number of invoices that were, or should have been, paid in accordance with that term within the reporting period,";

(b) in paragraph (5), for "is to" substitute "includes".

Diwygio Rhan 3 o Reoliadau 2024

6. Ar ôl rheoliad 45 (ystyr "works" ym mharagraff 5(1) o Atodlen 1 i Ddeddf 2023), mewnosoder—

"Contractau esempt: cyfrifiadau personau ymgysylltiedig

45A.—(1) At ddibenion y prawf trosiant ("*turnover test*") ym mharagraff 6(3) o Atodlen 2 i Ddeddf 2023, mae—

(a) swm trosiant ymgysylltiedig(**1**) person ymgysylltiedig i'w gyfrifo gan ddefnyddio swm cyfan ei drosiant ymgysylltiedig a gynhyrchwyd dros y cyfnod perthnasol, a

(b) cyfanswm trosiant person ymgysylltiedig i'w gyfrifo gan ddefnyddio cyfanswm cyfan ei drosiant a gynhyrchwyd dros y cyfnod perthnasol.

(2) Pan na fo swm trosiant ymgysylltiedig neu gyfanswm trosiant person ymgysylltiedig ar gael ar gyfer y cyfnod perthnasol cyfan oherwydd bod y person ymgysylltiedig(**2**) wedi cael ei greu neu wedi cychwyn ei weithgareddau ar ôl i'r cyfnod perthnasol ddechrau, mae'r swm trosiant ymgysylltiedig a chyfanswm y trosiant i'w gyfrifo yn unol â pharagraff (3).

Amendments to Part 3 of the 2024 Regulations

6. After regulation 45 (meaning of "works" in paragraph 5(1) of Schedule 1 to the 2023 Act), insert—

"Exempt contracts: affiliated persons' calculations

45A.—(1**)** For the purposes of the turnover test in paragraph 6(3) of Schedule 2 to the 2023 Act, an affiliated person's—

(a) affiliated turnover amount(**1**) is to be calculated using their entire affiliated turnover amount generated over the relevant period, and

(b) total turnover amount is to be calculated using their entire total turnover amount generated over the relevant period.

(2) Where an affiliated person's affiliated turnover amount or total turnover amount is not available for the entirety of the relevant period because the affiliated person(**2**) was created or commenced their activities following the beginning of the relevant period, the affiliated turnover amount and total turnover amount is to be calculated in accordance with paragraph (3).

(**1**) Gweler paragraff 6(3) o Atodlen 2 i Ddeddf 2023 am y diffiniad o "affiliated turnover amount".

(**2**) Gweler paragraff 6(2) o Atodlen 2 i Ddeddf 2023 am y diffiniad o "affiliated person".

(**1**) See paragraph 6(3) of Schedule 2 to the 2023 Act for the definition of "affiliated turnover amount".

(**2**) See paragraph 6(2) of Schedule 2 to the 2023 Act for the definition of "affiliated person".

(3) Mae swm trosiant ymgysylltiedig a chyfanswm trosiant person ymgysylltiedig i'w gyfrifo—

(a) pan na fu trosiant yn ystod y cyfnod perthnasol, gan ddefnyddio rhagamcanion busnes credadwy ar gyfer cyfnod o dair blynedd sy'n dechrau o ddyddiad dyfarnu'r contract;

(b) mewn unrhyw achos arall, gan ddefnyddio—

(i) unrhyw drosiant ymgysylltiedig neu gyfanswm y trosiant, yn ôl y digwydd, a gynhyrchwyd yn ystod y cyfnod perthnasol, a

(ii) rhagamcanion busnes credadwy, sy'n dechrau o ddyddiad dyfarnu'r contract, ar gyfer unrhyw ran o'r cyfnod o dair blynedd nad yw paragraff (i) yn ei chwmpasu.

(4) Wrth gyfrifo'r swm trosiant ymgysylltiedig a chyfanswm y trosiant mewn perthynas â pherson ("A"), mae trosiant cyfwerth person, sy'n berson ymgysylltiedig mewn perthynas ag A ond nad y cyfleustod(**1**) mohono, i'w drin fel rhan o drosiant A.

(5) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "cyfnod perthnasol" ("*relevant period*") yw naill ai—

(a) y cyfnod o dair blynedd sy'n gorffen â dyddiad dyfarnu'r contract, neu

(b) pan na fo gwybodaeth sy'n ymwneud â throsiant ar gyfer y cyfnod yn is-baragraff (a) ar gael, cyfnod o dair blynedd sy'n cyfateb i gyfnodau cyfrifyddu'r person ymgysylltiedig ac sy'n gorffen heb fod yn gynharach na blwyddyn cyn dyddiad dyfarnu'r contract;

ystyr "trosiant cyfwerth" ("*equivalent turnover*")—

(a) pan fo'r prawf trosiant yn cael ei gymhwyso mewn cysylltiad â chontract cyfleustodau ar gyfer cyflenwi nwyddau, mewn cysylltiad ag—

(i) y swm trosiant ymgysylltiedig, yw trosiant sy'n deillio o gyflenwi nwyddau i'r cyfleustod neu i'r personau eraill sy'n ymgysylltiedig â'r cyfleustod;

(3) An affiliated person's affiliated turnover amount and total turnover amount is to be calculated—

(a) where there has been no turnover during the relevant period, using credible business projections for a three-year period, starting from the date of contract award;

(b) in any other case, using—

(i) any affiliated turnover or total turnover, as the case may be, generated during the relevant period, and

(ii) credible business projections, starting from the date of contract award, for such part of the three-year period as are not covered by paragraph (i).

(4) In calculating the affiliated turnover amount and total turnover amount in relation to a person ("A"), the equivalent turnover of a person who is an affiliated person in relation to A, but is not the utility(**1**), is to be treated as part of A's turnover.

(5) In this regulation—

"equivalent turnover" ("*trosiant cyfwerth*") means—

(a) where the turnover test is being applied in respect of a utilities contract for the supply of goods, in respect of—

(i) the affiliated turnover amount, turnover deriving from the supply of goods to the utility or other persons affiliated with the utility;

(ii) the total turnover amount, the total turnover deriving from the supply of goods,

where, for the purposes of paragraph (i), those goods are the same or similar to the goods A supplies to the utility or other persons affiliated with the utility and are supplied over the relevant period or, where A's turnover has been calculated in accordance with paragraph (3), a corresponding three-year period;

(**1**) Gweler adran 35(4) o Ddeddf 2023 am y diffiniad o "utility".

(**1**) See section 35(4) of the 2023 Act for the definition of "utility".

(ii) cyfanswm y trosiant, yw cyfanswm y trosiant sy'n deillio o gyflenwi nwyddau,

pan fo'r nwyddau hynny, at ddibenion paragraff (i), yr un fath â'r nwyddau y mae A yn eu cyflenwi i'r cyfleustod neu i'r personau eraill sy'n ymgysylltiedig â'r cyfleustod, neu'n debyg i'r nwyddau hynny, ac yn cael eu cyflenwi dros y cyfnod perthnasol neu, pan fo trosiant A wedi ei gyfrifo yn unol â pharagraff (3), dros gyfnod tair blynedd cyfatebol;

(b) pan fo'r prawf trosiant yn cael ei gymhwyso mewn cysylltiad â chontract cyfleustodau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau, mewn cysylltiad ag—

(i) y swm trosiant ymgysylltiedig, yw trosiant sy'n deillio o gyflenwi gwasanaethau i'r cyfleustod neu i'r personau eraill sy'n ymgysylltiedig â'r cyfleustod;

(ii) cyfanswm y trosiant, yw cyfanswm y trosiant sy'n deillio o gyflenwi gwasanaethau,

pan fo'r gwasanaethau hynny, at ddibenion paragraff (i), yr un fath â'r gwasanaethau y mae A yn eu cyflenwi i'r cyfleustod neu i'r personau eraill sy'n ymgysylltiedig â'r cyfleustod, neu'n debyg i'r gwasanaethau hynny, ac yn cael eu cyflenwi dros y cyfnod perthnasol neu, pan fo trosiant A wedi ei gyfrifo yn unol â pharagraff (3), dros gyfnod tair blynedd cyfatebol;

(c) pan fo'r prawf trosiant yn cael ei gymhwyso mewn cysylltiad â chontract cyfleustodau ar gyfer cyflenwi gweithiau, mewn cysylltiad ag—

(i) y swm trosiant ymgysylltiedig, yw trosiant sy'n deillio o gyflenwi gweithiau i'r cyfleustod neu i'r personau eraill sy'n ymgysylltiedig â'r cyfleustod;

(ii) cyfanswm y trosiant, yw cyfanswm y trosiant sy'n deillio o gyflenwi gweithiau,

pan fo'r gweithiau hynny, at ddibenion paragraff (i), yr un fath â'r gweithiau y mae A yn eu cyflenwi i'r cyfleustod neu i'r personau eraill sy'n ymgysylltiedig â'r cyfleustod, neu'n debyg i'r gweithiau hynny, ac yn cael eu cyflenwi dros y cyfnod perthnasol neu, pan fo trosiant A wedi ei gyfrifo yn unol â pharagraff (3), dros gyfnod tair blynedd cyfatebol.

(b) where the turnover test is being applied in respect of a utilities contract for the supply of services, in respect of—

(i) the affiliated turnover amount, turnover deriving from the supply of services to the utility or other persons affiliated with the utility;

(ii) the total turnover amount, the total turnover deriving from the supply of services,

where, for the purposes of paragraph (i), those services are the same or similar to the services A supplies to the utility or other persons affiliated with the utility and are supplied over the relevant period or, where A's turnover has been calculated in accordance with paragraph (3), a corresponding three-year period;

(c) where the turnover test is being applied in respect of a utilities contract for the supply of works, in respect of—

(i) the affiliated turnover amount, turnover deriving from the supply of works to the utility or other persons affiliated with the utility;

(ii) the total turnover amount, the total turnover deriving from the supply of works,

where, for the purposes of paragraph (i), those works are the same or similar to the works A supplies to the utility or other persons affiliated with the utility and are supplied over the relevant period or, where A's turnover has been calculated in accordance with paragraph (3), a corresponding three-year period;

"relevant period" ("*cyfnod perthnasol*") means either—

(a) the period of three years ending with the date of contract award, or

(b) where information relating to turnover for the period in sub-paragraph (a) is not available, a three-year period corresponding with the accounting periods of the affiliated person, ending not earlier than one year before the date of contract award.

Cyfrifiadau gweithredwyr nwy neu wres

45B.—(1) At ddibenion paragraff 1(2)(c) o Atodlen 4 i Ddeddf 2023—

(a) mae swm y nwy neu'r gwres a gyflenwyd i'r rhwydwaith i'w gyfrifo gan ddefnyddio cyfanswm y trosiant a gynhyrchwyd drwy gyflenwi nwy neu wres gan y gweithredwr i'r rhwydwaith ("trosiant rhwydwaith") yn ystod y cyfnod perthnasol, a

(b) mae swm trosiant y gweithredwr i'w gyfrifo gan ddefnyddio cyfanswm trosiant y gweithredwr yn ystod y cyfnod perthnasol.

(2) Pan na fo trosiant rhwydwaith neu gyfanswm trosiant gweithredwr ar gael ar gyfer y cyfnod perthnasol cyfan oherwydd bod y gweithredwr wedi cael ei greu neu wedi cychwyn ei weithgareddau ar ôl i'r cyfnod perthnasol ddechrau, mae'r trosiant i'w gyfrifo yn unol â pharagraff (3).

(3) Mae trosiant rhwydwaith a chyfanswm trosiant gweithredwr i'w gyfrifo—

(a) pan na fu trosiant yn ystod y cyfnod perthnasol, gan ddefnyddio rhagamcanion busnes credadwy ar gyfer cyfnod o dair blynedd sy'n dechrau o ddyddiad dyfarnu'r contract;

(b) mewn unrhyw achos arall, gan ddefnyddio—

(i) unrhyw drosiant rhwydwaith neu gyfanswm y trosiant, yn ôl y digwydd, a gynhyrchwyd yn ystod y cyfnod perthnasol, a

(ii) rhagamcanion busnes credadwy, sy'n dechrau o ddyddiad dyfarnu'r contract, ar gyfer unrhyw ran o'r cyfnod o dair blynedd nad yw paragraff (i) yn ei chwmpasu.

(4) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "cyfnod perthnasol" ("*relevant period*") yw naill ai—

(a) y cyfnod o dair blynedd sy'n gorffen â dyddiad dyfarnu'r contract, neu

Gas or heat operator calculations

45B.—(1) For the purposes of paragraph 1(2)(c) of Schedule 4 to the 2023 Act—

(a) the amount of gas or heat supplied to the network is to be calculated using the total turnover generated by the supply of gas or heat by the operator to the network ("network turnover") during the relevant period, and

(b) the operator's turnover amount is to be calculated using the operator's total turnover during the relevant period.

(2) Where an operator's network turnover or total turnover is not available for the entirety of the relevant period because the operator was created or commenced their activities after the beginning of the relevant period, turnover is to be calculated in accordance with paragraph (3).

(3) An operator's network turnover and total turnover is to be calculated—

(a) where there has been no turnover during the relevant period, using credible business projections for a three-year period starting from the date of contract award;

(b) in any other case, using—

(i) any network turnover or total turnover, as the case may be, generated during the relevant period, and

(ii) credible business projections, starting from the date of contract award, for such part of the three-year period as are not covered by paragraph (i).

(4) In this regulation—

"quarter" ("*chwarter*") means a period of three months beginning with 1 January, 1 April, 1 July or 1 October in any given year;

"relevant period" ("*cyfnod perthnasol*") means either—

(a) the period of three years ending with the date of contract award, or

(b) pan na fo gwybodaeth sy'n ymwneud â nwy a gwres a gyflenwyd i'r rhwydwaith neu'r trosiant ar gyfer y cyfnod yn is-baragraff (a) ar gael, cyfnod o dair blynedd sy'n cyfateb i gyfnodau cyfrifyddu'r gweithredwr, sy'n gorffen â'r chwarter olaf cyn dyddiad dyfarnu'r contract y mae gan y gweithredwr wybodaeth o'r fath ar ei gyfer;

ystyr "chwarter" ("*quarter*") yw cyfnod o dri mis sy'n dechrau â 1 Ionawr, 1 Ebrill, 1 Gorffennaf neu 1 Hydref mewn unrhyw flwyddyn benodol.

Cyfrifiadau gweithredwyr trydan

45C.—(1) At ddibenion paragraff 2(2)(d) o Atodlen 4 i Ddeddf 2023—

(a) mae swm y trydan a gyflenwyd i'r rhwydwaith i'w gyfrifo gan ddefnyddio cyfanswm y trydan a gyflenwyd gan y gweithredwr i'r rhwydwaith yn ystod y cyfnod perthnasol, a

(b) mae swm yr ynni a gynhyrchwyd gan y gweithredwr i'w gyfrifo gan ddefnyddio cyfanswm yr ynni a gynhyrchwyd gan y gweithredwr yn ystod y cyfnod perthnasol.

(2) Pan na fo swm y trydan a gyflenwyd gan y gweithredwr i'r rhwydwaith, neu swm yr ynni a gynhyrchwyd gan y gweithredwr, ar gael ar gyfer y cyfnod perthnasol cyfan oherwydd bod y gweithredwr wedi cael ei greu neu wedi cychwyn ei weithgareddau ar ôl i'r cyfnod perthnasol ddechrau, mae swm y trydan a gyflenwyd gan y gweithredwr i'r rhwydwaith a swm yr ynni a gynhyrchwyd gan y gweithredwr i'w gyfrifo yn unol â pharagraff (3).

(3) Mae swm y trydan a gyflenwyd gan y gweithredwr i'r rhwydwaith a swm yr ynni a gynhyrchwyd gan y gweithredwr i'w gyfrifo—

(a) pan na fo trydan wedi cael ei gyflenwi neu pan na fo ynni wedi cael ei gynhyrchu yn ystod y cyfnod perthnasol, gan ddefnyddio rhagamcanion busnes credadwy ar gyfer cyfnod o dair blynedd sy'n dechrau o ddyddiad dyfarnu'r contract;

(b) where information relating to gas and heat supplied to the network or turnover for the period in sub-paragraph (a) is not available, a three-year period corresponding with the accounting periods of the operator, ending with the last quarter before the date of contract award for which the operator has such information available.

Electricity operator calculations

45C.—(1**)** For the purposes of paragraph 2(2)(d) of Schedule 4 to the 2023 Act—

(a) the amount of electricity supplied to the network is to be calculated using the total amount of electricity supplied by the operator to the network during the relevant period, and

(b) the amount of energy produced by the operator is to be calculated using the total amount of energy produced by the operator during the relevant period.

(2) Where the amount of electricity supplied by the operator to the network, or the amount of energy produced by the operator, is not available for the entirety of the relevant period because the operator was created or commenced their activities after the beginning of the relevant period, the amount of electricity supplied by the operator to the network and the amount of energy produced by the operator is to be calculated in accordance with paragraph (3).

(3) The amount of electricity supplied by the operator to the network and the amount of energy produced by the operator is to be calculated—

(a) where there has been no electricity supplied or energy produced during the relevant period, using credible business projections for a three-year period starting from the date of contract award;

(b) mewn unrhyw achos arall, gan ddefnyddio—

(i) unrhyw drydan a gyflenwyd i'r rhwydwaith neu unrhyw ynni a gynhyrchwyd, yn ôl y digwydd, yn ystod y cyfnod perthnasol, a

(ii) rhagamcanion busnes credadwy, sy'n dechrau o ddyddiad dyfarnu'r contract, ar gyfer unrhyw ran o'r cyfnod o dair blynedd nad yw paragraff (i) yn ei chwmpasu.

(4) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "cyfnod perthnasol" ("*relevant period*") yw naill ai—

(a) y cyfnod o dair blynedd sy'n gorffen â dyddiad dyfarnu'r contract, neu

(b) pan na fo gwybodaeth sy'n ymwneud â'r trydan a gyflenwyd neu'r ynni a gynhyrchwyd ar gyfer y cyfnod yn is-baragraff (a) ar gael, cyfnod o dair blynedd sy'n cyfateb i gyfnodau cyfrifyddu'r gweithredwr, sy'n gorffen â'r chwarter olaf cyn dyddiad dyfarnu'r contract y mae gan y gweithredwr wybodaeth o'r fath ar ei gyfer;

ystyr "chwarter" ("*quarter*") yw cyfnod o dri mis sy'n dechrau â 1 Ionawr, 1 Ebrill, 1 Gorffennaf neu 1 Hydref mewn unrhyw flwyddyn benodol.

Cyfrifiadau gweithredwyr dŵr

45D.—(1) At ddibenion paragraff 3(4)(d) o Atodlen 4 i Ddeddf 2023—

(a) mae swm y dŵr yfed a gyflenwyd i'r rhwydwaith i'w gyfrifo gan ddefnyddio cyfanswm y dŵr yfed a gyflenwyd gan y gweithredwr i'r rhwydwaith yn ystod y cyfnod perthnasol, a

(b) mae swm y dŵr yfed a gynhyrchwyd gan y gweithredwr i'w gyfrifo gan ddefnyddio cyfanswm y dŵr yfed a gynhyrchwyd gan y gweithredwr yn ystod y cyfnod perthnasol.

(2) Pan na fo swm y dŵr yfed a gyflenwyd gan y gweithredwr i'r rhwydwaith, neu swm y dŵr yfed a gynhyrchwyd gan y gweithredwr, ar gael ar gyfer y cyfnod perthnasol cyfan oherwydd bod y gweithredwr wedi cael ei greu neu wedi cychwyn ei weithgareddau ar ôl i'r cyfnod perthnasol ddechrau, mae swm y dŵr yfed a gyflenwyd a swm y dŵr yfed a gynhyrchwyd i'w gyfrifo yn unol â pharagraff (3).

(b) in any other case, using—

(i) any electricity supplied to the network or energy produced, as the case may be, during the relevant period, and

(ii) credible business projections, starting from the date of contract award, for such part of the three-year period as are not covered by paragraph (i).

(4) In this regulation—

"quarter" ("*chwarter*") means a period of three months beginning with 1 January, 1 April, 1 July or 1 October in any given year;

"relevant period" ("*cyfnod perthnasol*") means either—

(a) the period of three years ending with the date of contract award, or

(b) where information relating to electricity supplied or energy produced for the period in sub-paragraph (a) is not available, a three-year period corresponding with the accounting periods of the operator, ending with the last quarter before the date of contract award for which the operator has such information available.

Water operator calculations

45D.—(1**)** For the purposes of paragraph 3(4)(d) of Schedule 4 to the 2023 Act—

(a) the amount of drinking water supplied to the network is to be calculated using the total amount of drinking water supplied by the operator to the network during the relevant period, and

(b) the amount of drinking water produced by the operator is to be calculated using the total amount of drinking water produced by the operator during the relevant period.

(2) Where the amount of drinking water supplied by the operator to the network or the amount of drinking water produced by the operator is not available for the entirety of the relevant period because the operator was created or commenced their activities after the beginning of the relevant period, the amount of drinking water supplied and the amount of drinking water produced is to be calculated in accordance with paragraph (3).

(3) Mae swm y dŵr yfed a gyflenwyd gan y gweithredwr i'r rhwydwaith a swm y dŵr yfed a gynhyrchwyd gan y gweithredwr i'w gyfrifo—

(a) pan na fo dŵr yfed wedi cael ei gyflenwi neu pan na fo dŵr yfed wedi cael ei gynhyrchu yn ystod y cyfnod perthnasol, gan ddefnyddio rhagamcanion busnes credadwy ar gyfer cyfnod o dair blynedd sy'n dechrau o ddyddiad dyfarnu'r contract;

(b) mewn unrhyw achos arall, gan ddefnyddio—

(i) unrhyw ddŵr yfed a gyflenwyd i'r rhwydwaith neu unrhyw ddŵr yfed a gynhyrchwyd, yn ôl y digwydd, yn ystod y cyfnod perthnasol, a

(ii) rhagamcanion busnes credadwy, sy'n dechrau o ddyddiad dyfarnu'r contract, ar gyfer unrhyw ran o'r cyfnod o dair blynedd nad yw paragraff (i) yn ei chwmpasu.

(4) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "cyfnod perthnasol" ("*relevant period*") yw naill ai—

(a) y cyfnod o dair blynedd sy'n gorffen â dyddiad dyfarnu'r contract, neu

(b) pan na fo gwybodaeth sy'n ymwneud â dŵr yfed a gyflenwyd neu a gynhyrchwyd ar gyfer y cyfnod yn is-baragraff (a) ar gael, cyfnod o dair blynedd sy'n cyfateb i gyfnodau cyfrifyddu'r gweithredwr, sy'n gorffen â'r chwarter olaf cyn dyddiad dyfarnu'r contract y mae gan y gweithredwr wybodaeth o'r fath ar ei gyfer;

ystyr "chwarter" ("*quarter*") yw cyfnod o dri mis sy'n dechrau â 1 Ionawr, 1 Ebrill, 1 Gorffennaf neu 1 Hydref mewn unrhyw flwyddyn benodol."

(3) The amount of drinking water supplied by the operator to the network and the amount of drinking water produced by the operator is to be calculated—

(a) where there has been no drinking water supplied or produced during the relevant period, using credible business projections for a three-year period starting from the date of contract award;

(b) in any other case, using—

(i) any drinking water supplied to the network or drinking water produced, as the case may be, during the relevant period, and

(ii) credible business projections, starting from the date of contract award, for such part of the three-year period as are not covered by paragraph (i).

(4) In this regulation—

"quarter" ("*chwarter*") means a period of three months beginning with 1 January, 1 April, 1 July or 1 October in any given year;

"relevant period" ("*cyfnod perthnasol*") means either—

(a) the period of three years ending with the date of contract award, or

(b) where information relating to drinking water supplied or produced for the period in sub-paragraph (a) is not available, a three-year period corresponding with the accounting periods of the operator, ending with the last quarter before the date of contract award for which the operator has such information available."

Diwygio Rhan 4 o Reoliadau 2024

7.—(1) Mae Rhan 4 o Reoliadau 2024 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 46(3)—

(a) yn y testun Saesneg, yn is-baragraff (b) hepgorer "("*gweithiau*")", a

(b) yn y testun Saesneg, yn is-baragraff (c) hepgorer "("*contract gweithiau*")".

(3) Yn rheoliad 49, yn y testun Saesneg, hepgorer "("*hysbysiad cyhoeddus*")".

Amendments to Part 4 of the 2024 Regulations

7.—(1) Part 4 of the 2024 Regulations is amended as follows.

(2) In regulation 46(3)—

(a) in the English text, in sub-paragraph (b) omit "("*gweithiau*")", and

(b) in the English text, in sub-paragraph (c) omit "("*contract gweithiau*")".

(3) In regulation 49, in the English text, omit "("*hysbysiad cyhoeddus*")".

Diwygio Atodlen 2 i Reoliadau 2024

8.—(1) Mae'r Tabl yn Atodlen 2 i Reoliadau 2024 (awdurdodau llywodraeth ganolog) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y golofn ar y chwith (awdurdod arweiniol (1))—

(a) yn lle "Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru" rhodder "Comisiwn y Senedd",

(b) yn lle "Cyngor Gofal Cymru" rhodder "Gofal Cymdeithasol Cymru", ac

(c) yn lle "Chwaraeon Cymru" rhodder "Cyngor Chwaraeon Cymru, a elwir yn "Chwaraeon Cymru"".

(3) Yn y golofn ar y dde (awdurdod perthynol (2))—

(a) yn lle "Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru" rhodder "Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil",

(b) yn lle "Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru a Byrddau Iechyd Lleol Cymru" a "Cyrff GIG Cymru" rhodder—

"*Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol*

Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006

Ymddiriedolaeth GIG a sefydlwyd o dan adran 18 o'r Ddeddf honno

Awdurdod Iechyd Arbennig a sefydlwyd o dan adran 22 o'r Ddeddf honno."

Amendments to Schedule 2 to the 2024 Regulations

8.—(1) The Table in Schedule 2 to the 2024 Regulations (central government authorities) is amended as follows.

(2) In the left hand column (lead authority (1))—

(a) for "The National Assembly for Wales Commission" substitute "Senedd Commission",

(b) for "Care Council for Wales" substitute "Social Care Wales", and

(c) for "Sport Wales" substitute "The Sports Council for Wales, known as "Sport Wales"".

(3) In the right hand column (related authority (2))—

(a) for "Higher Education Funding Council for Wales" substitute "The Commission for Tertiary Education and Research",

(b) for "Welsh National Health Service Trusts and Local Health Boards" and "Welsh NHS Bodies", substitute—

"*National Health Service*

A Local Health Board established under section 11 of the National Health Service (Wales) Act 2006

An NHS Trust established under section 18 of that Act

A Special Health Authority established under section 22 of that Act."

Mark Drakeford

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, un o Weinidogion Cymru
19 Chwefror 2025

The Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language, one of the Welsh Ministers
19 February 2025

©ⓗHawlfraint y Goron 2025

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2025

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-39658-4

£8.14

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2025/181

9 780348 396584